# Polisi Amgylcheddol Canolfan Mileniwm Cymru

Mae Canolfan Mileniwm Cymru yn cydnabod yr argyfwng hinsawdd a'r angen brys am weithredu i frwydro yn erbyn heriau amgylcheddol. Fel sefydliad diwylliannol cenedlaethol, rydym yn deall ein cyfrifoldeb i arwain trwy esiampl. Credwn yng ngrym y celfyddydau i uno, addysgu ac ysbrydoli, a bydd cofleidio cynaliadwyedd yn sicrhau dyfodol lle gall pobl fuddio o'r celfyddydau bob amser. Mae ein hymrwymiad yn glir: byddwn yn lleihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr, yn cofleidio technolegau adnewyddadwy ac yn gosod y llwyfan ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae egwyddorion cynaliadwyedd wedi'u gwreiddio yn ein pensaernïaeth ac wedi llywio dyluniad ein canolfan, ac rydym wedi bod yn adeiladu ar y sylfeini hynny ers y cychwyn cyntaf. Rydym yn falch o fod yn rhan o bwyllgor llywio Llyfr Gwyrdd y Theatr, menter ar gyfer theatr gynaliadwy. Rydym yn gweithio tuag at sero net trwy dri cham (sylfaenol, canolradd ac uwch) mewn tri maes gwahanol: Adeiladau, Gweithrediadau a Chynyrchiadau. Rydym eisoes wedi cyflawni statws canolradd yn ein Hadeiladau a'n Gweithrediadau, a statws sylfaenol yn ein Cynyrchiadau a byddwn yn cadw at eu methodoleg wrth ymdrechu i ddod yn sefydliad carbon sero net erbyn 2035.

Yn 2025, fe wnaethom gyflawni achrediad ISO14001. Dyma safon y cytunwyd arno ac a gydnabyddir yn rhyngwladol ar gyfer Systemau Rheoli Amgylcheddol (EMS) sy'n nodi, rheoli, monitro a rheoli prosesau amgylcheddol.
Mae'r canlynol yn drosolwg o'n dull strategol ym mhob maes:

**Adeiladau**
Byddwn yn parhau i...

- Fuddsoddi mewn technoleg arloesol, werdd.
- Ymgorffori cynaliadwyedd yn ein proses Gwariant Cyfalaf, gan sicrhau bod cynnal a chadw ac uwchraddio yn ein gwneud yn fwy cyfeillgar i'r amgylchedd.
- Monitro a lleihau ein defnydd o ynni.
- Ymuno â Rhwydwaith Gwres Rhanbarth Caerdydd, a fydd yn darparu dŵr poeth o wres gwastraff a gynhyrchir yng nghyfleuster ERF Viridor lleol.
- Cofleidio egwyddorion yr economi gylchol wrth ymdrin â phrosiectau.

**Gweithrediadau**
Byddwn yn parhau i...

- Gofleidio egwyddorion 'lleihau, ailddefnyddio, ailgylchu.'

- Monitro a gwella ein rheolaeth o wastraff yn barhaus, gan gynyddu'r swm rydyn ni'n ei ailgylchu. Sicrhau bod dim gwastraff yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi.
- Ei gwneud yn ofynnol bod gan bob contractwr newydd gymwysterau cynaliadwyedd fel rhan o'n proses gaffael.
- Symleiddio ein cadwyni cyflenwi, gan dargedu gostyngiadau yn ein hallyriadau Cwmpas 3.
- Symleiddio a gwella ein gweithrediadau arlwyo, gan dargedu deunydd pacio a phlastigau un-tro, a defnyddio cyflenwyr lleol.
- Darparu hyfforddiant i staff a chyflwyniad i'n hamcanion cynaliadwyedd yn ystod y cyfnod sefydlu.
- Hyrwyddo dulliau cynaliadwy o deithio i'n staff a'n cwsmeriaid.

**Cynyrchiadau**

Byddwn yn parhau i…

- Ailddefnyddio ac ailgylchu ein setiau yn achos ein cynyrchiadau ein hunain.
- Edrych ar opsiynau ynghylch deunyddiau ac arferion cynaliadwy.
- Meithrin diwylliant o gynaliadwyedd o ran y cynyrchiadau rydyn ni'n eu dangos, gan ymgymryd â'r her o ddylanwadu pan fyddwn yn derbyn cynyrchiadau gan gwmnïau allanol.

Mae'r datganiad polisi hwn wedi cael ei ddatblygu a'i gymeradwyo gan ein tîm gweithredol. Fe fydd yn cael ei gyfathrebu i'n holl weithwyr ar adeg eu penodi, ar gyfnodau rheolaidd i atgoffa gweithwyr o'r amcanion, a phryd bynnag y caiff ei adolygu neu ei ddiweddaru. Mae'r polisi hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan Dîm Gwyrdd trwy'r broses adolygu rheoli. Mae'r adolygiadau rheolaidd hyn yn gwerthuso'r polisi mewn perthynas â natur, graddfa ac effeithiau amgylcheddol ein gweithrediadau a'n cynhyrchion.